



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Y Creuddyn
Ffordd Dderwen
Bae Penrhyn
Llandudno
Conwy
LL30 3LB**

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2016

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/07/2016

Cyd-destun

Ysgol gyfun ddynodedig Gymraeg ar gyfer disgyblion 11-18 oed yw Ysgol y Creuddyn a gynhelir gan awdurdod lleol Conwy. Mae nifer y disgyblion wedi codi ychydig ers yr arolygiad diwethaf, gyda 635 o ddisgyblion, yn cynnwys 132 yn y chweched dosbarth, yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Lleolir yr ysgol ar gyrion tref Llandudno. Daw'r disgyblion o ardal eang arfordirol a gwledig sir Conwy. Mae dros 7% o'r disgyblion yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, sydd yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.4%.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu lawn. Nid oes unrhyw ddisgybl yn derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae 1% o ddisgyblion yn dod o gefndir lleiafrifoedd ethnig. Nid oes unrhyw ddisgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig ac mae 32 o ddisgyblion ar gamau 'gweithredu gan yr ysgol a mwy'. Daw 77% o'r disgyblion o gartrefi lle nad yw'r Gymraeg yn brif iaith. Yn flynyddol, mae tua 20% o ffrwd Blwyddyn 7 yn ymuno â'r ysgol trwy'r cynllun trochi. Mae'r disgyblion hyn wedi derbyn addysg gynradd cyfrwng Saesneg ac yn cael cymorth dwys gyda'r Gymraeg. Maent yn ymuno â phrif ffrwd yr ysgol, fel arfer ym Mlwyddyn 8 neu Flwyddyn 9.

Dechreuodd y pennaeth presennol ar ei swydd ym mis Ionawr 2004, a'r dirprwy bennaeth dros dro yn Nhachwedd 2014. Mae dau bennaeth cynorthwyol yn cwblhau'r uwch dîm arwain.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol y Creuddyn yn 2015-2016 yw £4,971. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Conwy yw £5,511 a'r lleiafswm yw £4,418. Mae Ysgol y Creuddyn yn y trydydd safle o'r saith ysgol uwchradd yng Nghonwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Digonol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Digonol

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod perfformiad yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yn agos at y deilliannau a fodolwyd am dair allan o'r pedair blynedd diwethaf
- bod perfformiad disgyblion ym Mlwyddyn 13 yn gyson uwch na lefelau cenedlaethol
- yn y rhan fwyaf o wersi, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu gwybodaeth flaenorol yn effeithiol
- mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr
- bod llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n raenus, yn darllen yn fedrus ac yn meddu ar fedrau rhifedd cadarn
- bod ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol at eu dysgu
- bod athrawon yn cynllunio'n fanwl mewn llawer o wersi i ddatblygu dealltwriaeth a medrau llythrennedd disgyblion

Fodd bynnag:

- mae perfformiad yr ysgol yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 yn is nag ydyw mewn ysgolion tebyg
- yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd o un cyfnod allweddol i'r llall
- mae perfformiad merched yng nghyfnod allweddol 4 wedi gostwng dros dair blynedd ac mae bellach yn is na'r cyfartaledd ar gyfer merched mewn ysgolion tebyg
- mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn gwneud llai o gynnydd na'r disgwyl
- mae cyfradd presenoldeb disgyblion wedi gostwng dros y tair blynedd diwethaf
- nid yw'r drefn ar gyfer olrhain cynnydd wedi cael ei defnyddio'n ddigon effeithiol i ddylanwadu ar ddeilliannau diwedd cyfnod allweddol 4

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- bod gan arweinwyr weledigaeth sy'n cael ei chyfathrebu'n glir i bawb
- bod yr arweinwyr wedi adnabod yn gywir y blaenoriaethau ar gyfer datblygu a gwella, sef gwella canlyniadau a chodi safonau addysgu, dysgu ac asesu
- bod arweinwyr canol yn rheoli eu hadrannau yn fwy effeithiol trwy fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau am safonau ar draws yr ysgol

- bod uwch arweinwyr wedi ymateb yn gryf yn ddiweddar i'r angen i wella arweinyddiaeth a chynyddu atebolrwydd ar bob lefel
- bod corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn ymroddedig i bwysigrwydd strategol yr ysgol fel darparwr addysg cyfrwng Gymraeg
- bod yr ysgol wedi cryfhau trefniadau hunanarfarnu yn ddiweddar ac, o ganlyniad, mae'r arfarniadau'n fwy dadansoddol, yn fwy treiddgar ac yn finïog
- bod yr ysgol yn casglu barn disgyblion ar ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd ac yn gweithredu ar y sylwadau gwerthfawr hyn i addasu'r addysgu a'r cwricwlwm

Fodd bynnag:

- dim ond ers yn ddiweddar iawn y mae'r arweinwyr ar bob lefel wedi bod yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau pwysig
- mae diffyg atebolrwydd ar lefel ysgol gyfan wedi bod yn andwyol i safonau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 hyd at 2015
- nid yw'r llywodraethwyr wedi herio'r ysgol ddigon dros y blynyddoedd diwethaf
- mae adroddiadau hunanarfarnu pynciau unigol yn amrywio gormod o ran cysondeb ac ansawdd
- mae'n rhy gynnar i weld holl effaith y newidiadau diweddar iawn i brosesau arweinyddiaeth a gwella ansawdd

Argymhellion

A1 Gwella deilliannau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4

A2 Codi lefelau presenoldeb ysgol gyfan

A3 Gwneud defnydd effeithiol o drefniadau olrhain cynnydd i adnabod disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni a sicrhau bod ymyraethau priodol i atal hyn

A4 Gwella ansawdd yr arweinyddiaeth i sicrhau atebolrwydd

A5 Gwella cysondeb ac ansawdd y prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant ar draws yr ysgol

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn y prif ddangosyddion wedi amrywio ers 2012. Yn ystod y cyfnod hwn, mae perfformiad yn y trothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, wedi bod yn agos at y deilliannau a fodelwyd mewn tair o'r pedair blynedd ond yn 2015 mae'n sylweddol is na'r disgwyl.

Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi gwella yn raddol dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'n is na'r deilliannau a fodelwyd am y cyfnod hwn ac yn gyson islaw ysgolion tebyg. Mae'r ganran a lwyddodd i ennill 5 gradd A*-A yn y TGAU dros yr un cyfnod wedi gostwng yn raddol ac mae'n is nag ysgolion tebyg am y tro cyntaf yn 2015. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd o un cyfnod allweddol i'r llall.

Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn y trothwy lefel 2 sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, wedi bod islaw'r un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg am y tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad bechgyn yn y trothwy lefel 2 sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi amrywio ond mae'n is na pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg eraill am y tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad merched yn yr un dangosydd wedi gostwng dros yr un cyfnod ac mae bellach yn is na pherfformiad merched mewn ysgolion tebyg. Yn gyffredinol, nid yw ychydig o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud y cynnydd disgwyledig erbyn diwedd cyfnod allweddol 4.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau ag addysg naill ai yn yr ysgol neu mewn coleg addysg bellach.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae tuedd ar i fyny yng nghanran y disgyblion sy'n llwyddo i gyrraedd y dangosydd pwnc craidd. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn yn uwch nag ydyw mewn ysgolion tebyg am y tair blynedd diwethaf.

Ym Mlwyddyn 13, ers 2010, mae nifer y disgyblion sy'n ennill tair gradd A*-C yn eu Safon Uwch wedi bod ymhell uwchlaw'r cyfartaledd yn genedlaethol. Fodd bynnag, dros yr un cyfnod ac eithrio yn 2013, mae nifer y disgyblion sydd wedi llwyddo i ennill tair gradd A* neu A yn is na chyfartaledd Cymru. Llwyddodd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y trothwy lefel 3 yn 2015 ond bu gostyngiad yn y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach dros y tair blynedd diwethaf.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae llawer o ddisgyblion yn adalw gwaith blaenorol yn fedrus ac yn cymhwyso eu gwybodaeth flaenorol yn effeithiol. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn y gwersi hyn yn gwrando'n weithredol ar yr athro a'u cyfoedion gan ymateb yn ddeallus i'r cyfarwyddiadau.

Mewn llawer o wersi, mae'r disgyblion yn ymwybodol o'u cynnydd yn erbyn targedau a osodir ac yn deall yr hyn sydd angen ei wneud i wella. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn hunanasesu eu gwaith yn effeithiol gan ddefnyddio meini prawf

llwyddiant penodol. Maent yn ymgymryd yn frwdfrydig â phob gweithgaredd ac yn gweithio'n gynhyrchiol mewn grwpiau a pharau. Yn y gwersi hyn, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n raenus ac yn ramadegol gywir. Mae'r lleiafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu gydag aeddfedrwydd cynyddol wrth ymgymryd â gwaith ymestynnol priodol. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn ymateb yn dda i gwestiynu treiddgar gan yr athrawon ac yn gallu mynegi eu safbwyntiau yn effeithiol gan ddefnyddio iaith gyfoethog.

Mewn ychydig iawn o wersi ble mae disgyblion yn gwneud cynnydd eithriadol, mae bron pob disgybl yn ymateb yn gadarnhaol iawn i gyfarwyddyd yr athro ac yn gwneud cynnydd hyd eithaf eu gallu. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn gelfydd iawn i ddadansoddi testun.

Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn gwneud llai o gynnydd nag y dylent. Mae ychydig o ddisgyblion yn gyndyn i gyfrannu ar lafar o flaen eu cyfoedion ac, o ganlyniad, maent yn cyflwyno ymatebion anatblygedig, byr yn unig.

Ar draws y pynciau, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau darllen yn fedrus i gywain gwybodaeth a lleoli ffeithiau. Maent yn darllen yn ofalus ac yn hyderus wrth arddangos dealltwriaeth o'r testun. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn meddu ar y gallu i ddehongli'r wybodaeth briodol o ffynonellau gwahanol i gefnogi eu barn.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio termau pynciol penodol yn eu cyd-destun cywir. Maent yn cynllunio eu gwaith ysgrifennu yn fanwl ac yn ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae safon sillafu ac atalnodi disgyblion yn gadarn iawn ar draws yr ystod gallu.

Mae gan llawer o ddisgyblion fedrau rhifedd cadarn ac maent yn eu defnyddio'n briodol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mewn mathemateg, gwyddoniaeth a daearyddiaeth, mae disgyblion yn casglu data ac yn cofnodi, dehongli ac arddangos y wybodaeth mewn ffurf briodol. Mae'r mwyafrif yn hyderus wrth ddefnyddio rhifau cyfan, ffracsiynau a degolion. Maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn llwyddiannus mewn cyd-destunau gwahanol fel hanes, technoleg ac ieithoedd tramor modern.

Yn y Gymraeg, yng nghyfnod allweddol 4, mae pob disgybl yn dilyn cwrs iaith gyntaf ac mae llawer yn llwyddo i ennill TGAU gradd A*-C. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd gwerthfawr wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo yn eu Cymreictod ac yn meddu ar agweddau cadarnhaol at y Gymraeg. Mae llawer yn gwneud defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu naturiol â'i gilydd mewn sefyllfaoedd anffurfiol o gwmpas yr ysgol.

Lles: Da

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac maent o'r farn bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw achosion o fwlio. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd byw a bwyta yn iach ac mae llawer ohonynt yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon a ffitrwydd.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, oedolion ac ymwelwyr. Mae gan y rhan fwyaf ymagweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae ychydig iawn o waharddiadau dros dro a dim waharddiadau parhaol ers tair blynedd.

Mae'r gyfradd bresenoldeb yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg eraill o ran bod yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae presenoldeb disgyblion wedi gostwng dros y tair blynedd diwethaf ac mae ychydig yn is na'r deilliannau a fodelwyd yn 2015. Mae canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson wedi lleihau yn ystod yr un cyfnod.

Mae llawer o ddisgyblion, trwy'r cyngor ysgol a fforymau amrywiol, yn cyfrannu'n fuddiol at benderfyniadau ar nifer o agweddau ar fywyd yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys materion allweddol o addysgu a dysgu a gwella'r amgylchedd. Trwy amrywiol weithgareddau fel Eisteddfodau, sioeau a thimau chwaraeon lleol, mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n frwdfrydig i'w cymuned.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar y medrau i'w paratoi ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ysgol neu'r cam nesaf o'u dysgu.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae darpariaeth gwricwlaidd yr ysgol yn bodloni'r gofynion statudol. Mae'r ysgol wedi ehangu ar y ddarpariaeth drwy gydweithio'n effeithiol ag ysgolion a cholegau lleol er mwyn diwallu anghenion a diddordeb pob disgybl yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang iawn o gyfleoedd dysgu cyfoethog a chynhwysol. Mae'r profiadau allgyrsiol yn atgyfnerthu'n werthfawr y profiadau cwricwlaidd ac yn galluogi disgyblion i symud yn hyderus i'r cam nesaf o'u haddysg, hyfforddiant neu waith.

Mae strwythurau cadarn yn eu lle i ddatblygu medrau ar draws y cwricwlwm. Lle bo'n briodol, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddatblygu llythrennedd, rhifedd a medrau meddwl. Darperir rhaglenni ymyrraeth effeithiol i gefnogi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos iawn gydag ysgolion cynradd partner. Darperir ystod helaeth o brofiadau defnyddiol i sicrhau parhad a dilyniant cwricwlaidd wrth i ddisgyblion drosglwyddo i'r ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen drochi ieithyddol lwyddiannus iawn ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Mae hyn yn galluogi iddynt gael mynediad llawn i'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg. Rhoddir cynhaliaeth o safon uchel iawn i'r disgyblion hyn drwy gydol eu hamser yn yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn nodwedd gref sydd yn galluogi llawer o ddisgyblion i gyflawni'n dda.

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau buddiol sy'n hyrwyddo addysg datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r rhaglen wersi addysg bersonol a chymdeithasol a Chymhwyster Bagloriaeth Cymru yn sicrhau darpariaeth werthfawr i bob disgybl. Cefnogir hyn yn effeithiol gan deithiau ac ymweliadau niferus. Mae'r 'Co-op Bwyd' yn fenter arloesol sy'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gydweithio â chynhyrchwyr bwyd lleol.

Addysgu: Digonol

Ers Medi 2015, mae'r ysgol wedi blaenoriaethu gwella safonau addysgu ar draws yr ysgol ac mae polisi addysgu a dysgu newydd defnyddiol wedi ei ddatblygu a'i gyflwyno. Fodd bynnag, nid yw system olrhain cynnydd yr ysgol wedi sicrhau gwelliannau ar draws yr ysgol, yn enwedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Mae gan bron bob athro wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn ffurfio perthynas waith gadarnhaol gyda'r disgyblion. Maent yn fodolau iaith da sy'n mynnu'r un cywirdeb iaith o'r disgyblion. Mae rheolaeth dosbarth yn nodwedd gadarn o'u haddysgu.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynllunio'n fanwl i ddatblygu dealltwriaeth a medrau llythrennedd disgyblion. Mae amrediad eang o weithgareddau yn adeiladu'n werthfawr ar ddysgu blaenorol. Rhoddir cyfleoedd priodol i ddisgyblion ymgymryd â gwaith grŵp a phâr. Mae cyflymder addas i'r gwersi a disgwiliadau uchel o ddisgyblion. Serch hynny, mae cyflymdra yn arafu mewn ychydig o wersi sy'n arwain at ddiffyg canolbwyntio gan ychydig o ddisgyblion.

Yn y mwyafrif o wersi, mae athrawon yn rhannu amcanion y wers yn llwyddiannus ac mae'r gweithgareddau yn galluogi'r disgyblion i'w gwireddu. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn darparu gwaith sy'n addas ar gyfer anghenion unigol disgyblion sy'n eu galluogi i wneud cynnydd priodol. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, nid yw'r athro yn darparu digon o gyfle i ddisgyblion drafod eu gwaith gyda'i gilydd. O ganlyniad, mae'r gwersi hyn yn rhy athro ganolog ac mae'r disgyblion yn fwy goddefol. Mewn ychydig o wersi, lle gwelwyd cynnydd eithriadol ymysg y disgyblion, cynllunnir gweithgareddau yn effeithiol iawn i sicrhau her gynyddol a thanio dychymyg disgyblion. Mae hyn yn seiliedig ar wybodaeth gynhwysfawr o gyrhaeddiad blaenorol y disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae perthynas waith hynod o effeithiol lle bydd yr athro'n cyfarwyddo cyfres o weithgareddau heriol yn fedrus iawn.

Datblygwyd polisi marcio ac adborth defnyddiol newydd yn ddiweddar iawn. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn unol â'r polisi hwn a cheir cysondeb yn amllder a dull ar draws y rhan fwyaf o adrannau'r ysgol. Mae llawer o'r athrawon yn darparu sylwadau ar waith disgyblion sy'n adeiladol gyda thargedau buddiol. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymateb yn briodol ac yn gwella eu gwaith.

Mewn llawer o wersi, mae'r athrawon yn gwirio cynnydd yn gyson ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, nid yw'r asesu hwn yn ddigon pwrpasol ac, o ganlyniad, nid yw o gymorth i ddisgyblion i wella eu gwaith.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio holi treiddgar ac agored yn fedrus sy'n dyfnhau dealltwriaeth disgyblion o'r pwnc. Yn yr ychydig o achosion lle nad yw'r cwestiynu'n effeithiol, nid yw'r athrawon yn rhoi digon o gyfle i ddisgyblion ymateb neu mae'r cwestiynau'n rhy gaeëdig a'r atebion yn rhy amlwg.

Ers Medi 2015, mae gan yr ysgol drefn ddefnyddiol i olrhain cynnydd disgyblion yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Mae'n galluogi'r ysgol i adnabod disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion sydd mewn perygl o danberfformio ac i'r ysgol drefnu ymyrraeth briodol. Fodd bynnag, nid oedd y drefn hon yn ei lle cyn Medi 2015 ac felly nid oedd gan arweinwyr y wybodaeth angenrheidiol er mwyn darparu'n briodol i wella ddeilliannau diwedd cyfnod allweddol 4.

Mae rhieni'n derbyn adroddiadau gwerthfawr ar gynnydd eu plant. Mae'r adroddiadau interim yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gyrhaeddiad yn erbyn targedau tra bod yr adroddiad blynyddol yn fanwl ac yn nodi'n glir yr hyn sy'n dda a'r hyn sydd angen ei wneud i wella.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gweithdrefnau iechyd a lles yr ysgol, yn ogystal â strwythur bugeiliol cadarn, yn arwain at amgylchedd gofalgwr lle teimla bron pob un o'r disgyblion yn ddiogel.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn llwyddo i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol rheolaidd i bron bob disgybl i gyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon amrywiol fel Eisteddfodau, Yr Urdd, pysgota a thimau chwaraeon yr ysgol.

Mae strategaethau gwella presenoldeb yn datblygu'n foddhaol ac yn cynnig cefnogaeth ac anogaeth ddefnyddiol i ddisgyblion.

Mae gan yr adran anghenion dysgu ychwanegol adnabyddiaeth gynhwysfawr o anghenion dysgu disgyblion penodol. Mae cynlluniau addysg unigol yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i ddiwallu eu hanghenion. Mae disgyblion a'u rhieni a/neu gofalgwyr yn cymryd rhan lawn yn y broses ar gyfer adolygu eu cynlluniau addysg unigol yn rheolaidd. Mae'r cynlluniau hyn yn ddefnyddiol i athrawon er mwyn sicrhau cyfranogiad llawn gan y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn dosbarthiadau neu mewn darpariaeth ar wahân. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos iawn gydag asiantaethau arbenigol i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion bregus yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael effaith ddigonol ar gynnydd pob disgybl sy'n derbyn cymorth gweithredol gan yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol ag ysgolion partner cynradd a chyrrff allanol sy'n cryfhau'r ddarpariaeth arbenigol a bugeiliol. Mae'r ysgol yn darparu cyngor gwerthfawr i ddisgyblion yn eu dewisiadau o gyrsiau neu yrfa.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae Ysgol y Creuddyn yn gymuned glos gydag ethos Cymraeg a Chymreig sy'n gynhwysol a chynhaliol. Mae'r gymuned yn rhannu'r un weledigaeth a sefydlwyd yn ddiweddar, sef 'Rhoi o'n gorau i gael y gorau', ac mae hyn yn dechrau dylanwadu ar eu gwaith. Mae'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal a goddefgarwch ac yn gweithio tuag at sefyllfa ble mae pob disgybl yn rhydd rhag aflonyddwch. Caiff pob disgybl fynediad addas i'r cwricwlwm ac i ystod briodol o weithgareddau allgyrsiol.

Mae'r adeilad yn lân ac mae'r amgylchedd dysgu yn ysgogol a diogel. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid yn addas. Mae'r adeiladau yn addas ar gyfer nifer y disgyblion a'r gweithgareddau a gynigir. Mae'r caeau a'r neuadd chwaraeon yn adnoddau gwerthfawr. Mae digon o adnoddau technolegol fel byrddau gwyn rhyngweithiol a chyfrifiaduron ar gael sy'n cael eu defnyddio'n bwrpasol gan staff a disgyblion.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Digonol
--	----------------

Arweinyddiaeth: Anfoddhaol

Mae uwch dîm arwain yr ysgol wedi profi cyfnod o newid dros y ddwy flynedd diwethaf ac wedi cael ei ailstrwythuro yn ddiweddar. Mae cyfrifoldebau o fewn y tîm hwn wedi eu diffinio'n glir a'u dyrannu'n synhwyrol.

Mae gan yr ysgol weledigaeth strategol erbyn hyn ac mae arweinwyr yr ysgol yn cyfathrebu'r weledigaeth hon yn glir i bawb. Mae'r arweinwyr wedi adnabod yn gywir eu blaenoriaethau ar gyfer datblygu a gwella. Mae'r rhain yn cynnwys codi safonau mewn perfformiad a gwella ansawdd yr addysgu, dysgu ac asesu. Serch hynny, dim ond ers yn ddiweddar iawn y mae'r staff cyfan wedi bod yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn.

Mae'r ysgol hefyd wedi ymateb yn gryf yn ddiweddar i'r angen i wella arweinyddiaeth a chynyddu atebolrwydd ar bob lefel. Mae'r arweinyddiaeth bellach yn cefnogi ac yn herio'r adrannau pwnc i gyflawni'n uwch. Nid yw hyn, fodd bynnag, wedi arwain at wella deilliannau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Mae gan yr ysgol swydd ddisgrifiadau sydd yn briodol ar gyfer llawer o aelodau'r staff. Er hynny, nid yw'r swydd ddisgrifiadau ar gyfer aelodau dros dro'r uwch dîm arwain yn gyfredol.

Mae'r arweinwyr canol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau am wella safonau ar draws yr ysgol. Maent wedi derbyn cefnogaeth a hyfforddiant buddiol i drafod data er mwyn olrhain cynnydd. Hyd at yn ddiweddar, serch hynny, nid oedd yr uwch dîm arwain yn pwysleisio arwyddocâd y cyfrifoldebau traws ysgol hyn yn ddigon trylwyr. Mae'r diffyg atebolrwydd hwn wedi bod yn andwyol i safonau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Nid yw'r ysgol wedi herio tanberfformiad hyd at yn gymharol ddiweddar. Ers mis Medi 2015, mae'r ysgol wedi tynhau'r cyswllt rhwng yr uwch dîm arwain a'r adrannau pwnc. Erbyn hyn, mae gan yr ysgol galendr o gyfarfodydd perthnasol a rheolaidd. Ar y cyfan, mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio'n briodol ar drafod cynnydd disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad addas. Fodd bynnag, nid yw'r targedau ar gyfer pob aelod o staff yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol. Mae'n ymroddedig i bwysigrwydd strategol yr ysgol fel darparwr addysg cyfrwng Gymraeg. Mae'r trefniadau er mwyn sicrhau cyswllt rhwng y corff ac adrannau pwnc yr ysgol yn datblygu'n briodol. Fodd bynnag, nid yw'r llywodraethwyr wedi herio'r ysgol ddigon dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn sicrhau bod safonau yn codi.

Gwella ansawdd: Digonol

Mae'r ysgol wedi cryfhau trefniadau hunanarfarnu yn ddiweddar. Mae'r arfarniadau'n fwy dadansoddol ac yn fwy treiddgar a miniog. Mae hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant strategol yn rhan reolaidd o fywyd cyfredol yr ysgol. Mae'r trefniadau wedi cyfrannu tuag at gynnal lefelau presenoldeb priodol, ond heb arwain at ddigon o welliant yng nghyfnod allweddol 4.

Mae calendr priodol o weithgareddau addas gan yr ysgol i fonitro a gwella ansawdd. Maent yn cynnwys arsylwi gwersi, archwiliadau o lyfrau disgyblion a chyfarfodydd rheolaidd sy'n ffocysu ar wella safonau. Ers Medi 2015, mae'r ysgol wedi paratoi dogfennau hunanarfarnu sy'n adnabod y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ymhob dangosydd ansawdd ac yn crynhoi'r rhain yn ddefnyddiol. O ganlyniad, mae gan reolwyr ar bob lefel ddealltwriaeth briodol o waith yr ysgol.

Mae'r uwch dîm arwain yn dadansoddi data perfformiad disgyblion yn fanwl, yn ystyried tueddiadau a chynnydd dros gyfnod ac yn adnabod cryfderau a'r gwendidau yn y deilliannau. Maent yn ystyried perfformiad yr ysgol yn y prif ddangosyddion o'i gymharu ag ysgolion eraill tebyg yn drylwyr. Mae rheolwyr canol yn datblygu eu medrau dadansoddi data yn effeithiol.

Ers Medi 2015, mae penaethiaid y pynciau craidd wedi gwella safon eu dogfennau hunanarfarnu ac maent yn briodol seiliedig ar brif flaenoriaethau'r ysgol. Mae'r adroddiadau'n cynnwys dadansoddiad addas o ddata perfformiad disgyblion. Serch hynny, nid yw'r adroddiadau hunanarfarnu'r adrannau yn talu digon o sylw i safon yr addysgu ac asesu. Yn gyffredinol, mae adroddiadau hunanarfarnu pynciau unigol yn amrywio gormod o ran cysondeb ac ansawdd.

Mae'r ysgol yn casglu barn disgyblion ar ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd. Mae'r cyngor ysgol a'r fforymau pwnc yn cynnig sylwadau gwerthfawr ar yr addysgu a'r cwricwlwm. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi gwneud newidiadau perthnasol yn y meysydd hyn. Cynigir cyfleoedd gwerthfawr i rieni leisio barn ar waith yr ysgol wrth lenwi holiaduron ac yn y cyfarfodydd rhieni.

Mae cyswllt priodol rhwng hunanarfarnu ar lefel ysgol gyfan a'r cynlluniau ar gyfer gwelliant. Mae'r cynllun datblygu ysgol cyfredol yn ddogfen gynhwysfawr sy'n blaenoriaethu'r rhan fwyaf o'r meysydd i'w datblygu a adnabyddir trwy'r adroddiad hunanarfarnu. Ar gyfer pob blaenoriaeth, mae amcanion priodol a chamau gweithredu manwl. Serch hynny, nid yw'r deilliannau dymunedig bob tro wedi'u diffinio'n ddigon manwl i'w mesur. Mae cynlluniau gwella adrannol yn cysylltu'n

briodol â'r meysydd i'w datblygu a amlygwyd yn yr adroddiadau hunanarfarnu adrannol. Mae targedau addas yn y cynlluniau gwella ar gyfer arfarnu llwyddiant y gweithredoedd.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag ystod eang o bartneriaid er mwyn ehangu profiadau ei disgyblion. Mae'r trefniadau gyda cholegau lleol yn sicrhau dewis addas o bynciau i bob disgybl yng nghyfnod allweddol 4. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn dychwelyd i'r chweched dosbarth ac mae'r ysgol yn cyflwyno ystod eang o bynciau trwy bartneriaeth ag ysgolion a cholegau lleol. Mae'r cydweithio ag ysgol leol yn sicrhau dewis ehangach o gyrsiau cyfrwng Cymraeg ôl 16. Mae trefniadau cadarn ar waith er mwyn sicrhau ansawdd y partneriaethau uchod.

Mae gan yr ysgol berthynas gadarnhaol â rhieni. Mae dyddiaduron y disgyblion, ynghyd ag adroddiadau rheolaidd, yn ddulliau effeithiol o gyflwyno cynnydd y disgyblion. Mae'r ysgol yn hygyrch i rieni a'r bwletin rhieni rheolaidd yn gyswllt cyfathrebu defnyddiol rhwng yr ysgol a'r cartref.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau cadarn â busnesau lleol a rhyngwladol sydd yn hybu medrau dysgwyr o fewn y gymuned. Mae partneriaethau cryf wedi eu sefydlu rhwng yr ysgol a sefydliadau hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

